# KIGG a Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth Prifysgol De Cymru

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cafodd KIGG Ltd ei sefydlu yn Sili ger Caerdydd yn 2005. Mae'n dylunio ac yn gweithgynhyrchu Mesuryddion Clyfar sy'n anfon darlleniadau electronig yn awtomatig at y cyflenwr ynni. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau cychwynnol mewn ffatrïoedd i fuddsoddwyr llywodraethau a rhai preifat dros y byd i gyd.

Gan ei fod yn gweithio gyda chleientiaid cynyddol soffistigedig, daeth yn amlwg bod yn rhaid datblygu'r cynnyrch 'Clyfar' ymhellach. Roedd yn rhaid hefyd i KIGG ennill manyleb y Comisiwn Electro-dechnegol Rhyngwladol (IEC 61850) i gyfarfod â'r safonau priodol er mwyn dal ati i gynhyrchu'r cynnyrch 'Clyfar' hyn.

Mae Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) yn rhaglen a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig ac mae'n helpu busnesau i ddefnyddio gwybodaeth, technoleg a sgiliau yn well er mwyn bod yn fwy cystadleuol a chynhyrchiol. Gall busnesau sy'n rhan o Ranbarth Sylfaen Wybodaeth y DU fanteisio ar y rhaglen. Innovate UK sy'n rheoli'r rhaglen KTP. Parodd y prosiect hwn am 11 mis ac fe'i ariannwyd yn llawn gan Lywodraeth Cymru. Llwyddwyd i sefydlu Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth gyda Chanolfan Peirianneg Cynnyrch Electronig (CEPE) ym Mhrifysgol De Cymru. Mae hyn wedi helpu KIGG i ddysgu mwy am beirianneg ac i ddatblygu offer arddangos sy'n angenrheidiol i ddenu cleientiaid newydd.

Gyda'r cyllid, a chyda chymorth myfyriwr PhD a gafodd ei gontractio i'r prosiect a'i leoli yn y Ganolfan Peirianneg Cynnyrch Electronig (CEPE), daeth KIGG i allu deall safonau IEC. Llwyddodd y myfyriwr i weithredu'r safonau a throsglwyddo'r wybodaeth i KIGG. Yn ei dro, rhoddodd y Rhaglen Drosgwlyddo Gwybodaeth brofiad i'r cyswllt o broblemau peirianyddol yn y byd mawr wrth ddatblygu sgiliau datrys problemau a datblygu gwybodaeth yn y diwydiant mesuryddion clyfar mewn sefyllfa ddiwydiannol, a defnyddio damcaniaeth yn ymarferol.

Dyna pam y cyflogodd KIGG y myfyriwr cyswllt PhD yn barhaol ac erbyn hyn mae'n gweithio ar ddyluniadau newydd gan fanteisio ar ei arbenigrwydd. Mae KIGG hefyd yn gobeithio cydweithio ymhellach gyda CEPE er mwyn gwella'i wybodaeth ac ehangu'i bortffolio cynnyrch ymhellach.

Meddai Danile Carr, Cyswllt Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth: "Roedd y Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth yn ffordd wych o gwneud y trawsnewid o brifysgol i ddiwydiant. Mae wedi rhoi profiad amhrisiadwy i mi ac wedi fy wneud yn well peiriannydd nag y byddwn i ar ôl dod yn syth o brifysgol."

Meddai Jonathan Harfoot, Rheolwr Cyfarwyddwr KIGG Ltd: "Mae ein buddsoddwyr a'n chleientiaid tramor yn cael eu syfrdanu pan fyddwn ni'n egluro wrthyn nhw sut mae Rhaglenni Trosglwyddo Gwybodaeth yn gweithio, ac yn sŵn am y gefnogaeth rydyn ni'n ei gael gan Lywodraeth Cymru a Phrifysgol De Cymru. Byddai llawer o gleientiaid tramor wrth eu bodd pe byddai gan eu llywodraeth rywbeth yn debyg i'r Rhalgen Trosglwyddo Gwybodaeth. Mae'r cynllun yn hanfodol i ehangu'n technoleg ac arbenigedd ac mae hefyd wedi'n helpu i ennill prosiectau i gychwyn ffatrioedd Clyfar gwerth miliynau o bunnoedd."

Busnes Cymru
Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:
**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk
**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk
**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG22758 / © Hawlfraint y Goron 2015